

Cofnodion Cyfarfod Nos Lun Mehefin 30ain 2014 yn Ysgol Bryn Saron, Saron, Llandysul am 7.30y.h.

1. **06/14 PRESENNOL:** Cyngorwyr. Adrian Thomas[Cadeirydd], John Crossley, Ian Davies, Delyth Evans, Brenda Jones, Christopher Jones, Nesta Jones, Caroline Roberts, Mary Phillips, Marc Rees, Dilwyn Smith, John Wigley. Cyng.Sir - K Howell, Clerc – Stella Jones  
**HEFYD YN BRESENNOL:** Cyfieithydd, PC I Ayres, PCSO J Kedward, aelod o'r cyhoedd
2. **06/14 HEDDLU:** dwedodd PC I Ayers bod Heddlu Traffig wedi cael gwybodaeth am y ceir sy'n goryrru yn yr ardal. Dwedwyd bod y car oedd yn parcio ger Ger y Ffynnon wedi cael tocyn ac mae'r mater wedi cael ei drosglwyddo i'r adran gyfreithiol. Car yn parcio ym Mhentrecwrt yn ddibendraw ac yn gwynebu'r ffordd anghywir, dwedodd yr heddlu ni ellir gwneud dim am lle roedd yn parcio ond fe ellir os gwelir y car yn wynebu'r ffordd anghywir ar yr ochr mae'n parcio, byddant yn cadw llygad ar hyn. Dwedwyd bod ceir yn rasio drwy Heol y Dderwen yn oriau mân y bore, bydd yr heddlu yn edrych mewn i hyn.
3. **06/14 YMDDIHEURIADAU:** Cyng. Jamie Ayres,
4. **06/14 COFNODION :** derbyniwyd cofnodion Cyfarfod Blynnyddol Mai 19eg 2014 a'u cael yn gywir.  
Cynigydd – Cyng. J Crossley  
Eilydd – Cyng. D Smith  
derbyniwyd cofnodion Cyfarfod Misol Mai 19eg 2014 a'u cael yn gywir.  
Cynigydd Cyng M Phillips  
Eilydd – Cyng M Rees
5. **06/14 DATGANIADAU DIDDORDEB :-** Cyllid – Cyng J Crossley
6. **06/14 MATERION YN CODI :**  
12.i.01/14. b) 'Audio Trail' – Fersiwn Gymraeg wedi ei wneud, gwaith yn cael ei wneud ar hyn o bryd ar yr 'app'  
7.v.04/14. Ymgynghor Glanau Sir Gaerfyrddin – Bydd y Cyngor Bro yn Cydweithio gyda Ysgol Penboyr brynhawn Iau 10ed 2014 – y canlynol wedi gwirfoddoli i gydweithio gyda'r ysgol – Cyng C Roberts, B Jones, A Thomas, C Jones, J Wigley, I Davies, J Crossley  
11.ii.04/14. Hysbysfwrdd Melinau Gwlân, Pentrecwrt – dwedodd Emyr Price bod yr hysbysfwrdd wedi ei yswirio gyda chwmmi Zurich felly does dim cyfrifoldeb ar y Cyngor Bro  
12.ii.04/14 Dŵr ar yr hewl tu allan i Meysydd, Felindre – Dwedodd Tony Williams o GSG bydd y gwaith yn cael ei wneud haf yma cyn glaw y Gaef.  
12.v.05/14 ateb wrth J McEvoy a M Jacob ynghylch arwydd cyflymder Pentrecagal – dylai fod yn y papur cyn diwedd Gorffennaf. Ynghylch llinellau melyn Felindre bydd y Bwrdd Gweithredol yn gwneud penderfyniad(gan bod gwrthwynebiad wedi dod wrth un aelod o'r cyhoedd) ac mi fydd y Gorchymyn yn cael ei gyhoeddi ar ddechrau Gorffennaf ac yna bydd y comisiwn yn cael ei osod i'r cwmni sy'n peintio llinellau melyn.
7. **06/14 GOHEBIAETH:**
  - i. Cantref – Cyfarfod Blynnyddol 17/07/2014 am 6.30yh yn Neuadd y Dref, Aberteifi
  - ii. GIG – Sesiynau gwybodaeth ar gyfer Cyngorau Tref a Chymuned – Newidiadau i wasanaethau mamolaeth, newyddenedigol[Uned Gofal Arbennig Babanod-“SCBU”], pediatrig a gynaeoleg yn Ysbytai Llwynhelyg a Glangwili – ar 9/07/2014 am 6.30yh yn Swit Cothi, Canolfan Halliwell, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant.
  - iii. Cyngor Cymuned Cynwyl Elfed – Cyflwr yr hewl ar y B4333 ger fferm Rhyddgoed Fawr - Cyng K Howell i ddelio a'r mater.
  - iv. Ysgol Penboyr – gwahoddiad i Seremoni dadorchuddio plac ar Sgwar Gât ddydd Mercher Gorffennaf 9ed 2014 am 20'r gloch
  - v. CSG – CD o'r Cynllun Datblygu Lleol – Yr atodlen ynghylch y Newidiadau yn sgil Materion sy'n Codi – sylwadau i fod mewn erbyn 4.30yp 25/07/2014 – [swyddog.rhaglen@sirgar.gov.uk](mailto:swyddog.rhaglen@sirgar.gov.uk) - Clerc i ysgrifennu yn datgan pryder y Cyngor ynghylch adeiladu rhagor o dai ger Parc Meiros bod yr hewlydd sydd yn arwain i'r pentref ddim yn ddigon da i gymryd rhagor o drafndiaeth ac hefyd bod y system draens a charffosiaeth ddim yn ddigon da i ymdopi gyda datblygiad arall ym mhentref Drefach Felindre.
  - vi. Ombwdsman – canllaw ar gyfer cwynion
  - vii. e-bost – Bwletin Rhanbarthol – Simon Thomas AC – *cylchlythyrwyd*
  - viii. Y Llais – cyfnodolyn
  - ix. e-bost – Twf Gwyrdd Cymru – *nodwyd*
  - x. e-bost – CSG – Cynllun Datblygu Lleol Sir Gaerfyrddin – *cylchlythyrwyd [gweler v. uchod]*
  - xi. e-bost – Bwletin Rhanbarthol - Simon Thomas AC – *cylchlythyrwyd a nodwyd*
  - xii. e-bost – CSG - Codau Tramgwyddau Parcio Newydd 26 & 27 – *cylchlythyrwyd*
  - xiii. 'EN020016' Brechfa Electrical Connection - Tynnu cais yr Ymgeisydd am Farn Rychwantu yn ôl yn ffurfiol
  - xiv. Prosiect Cyngor 50+ - *nodwyd*
  - xv. Cyfarfod Blynnyddol CAB Sir Gâr – 3/07/2014 am 6yh yng Ngwesty'r Llwyn Iorwg, Caerfyrddin
  - xvi. Parish on Line – Newyddion – *cylchlythyrwyd*

\_\_\_\_\_ Cadeirydd

\_\_\_\_\_ Dyddiad

- xvii. CSG - Diwrnod Cymunedol Eisteddfod 14/06/14 – *nodwyd*  
xviii. At Sylw Cynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru - Papur Gwyn Iechyd y Cyhoedd – Toiledau at Defnydd y Cyhoedd – *nodwyd ei bod yn bwysig i ddangos cefnogaeth i hwn*  
xix. ULIC – Model Reoliadau Ariannol Newydd - *nodwyd*  
xx. e-bost – Tony Williams – re Meysydd – *deliwyd o dan Materion yn Codi o'r Cofnodion*  
xxi. e-bost – J McEvoy – Llinellau Melyn, Pentrecagal arwydd Cyflymder - *deliwyd o dan Materion yn Codi o'r Cofnodion*  
xxii. CSG – cydnabyddiaeth o'r Adran Gynllinio ynglyn ymholiad lleoli 'Carafan Dros dro'  
xxiii. ULIC – newidiadau i'r Côd Ymarfer ar Faterion Gweithlu - *nodwyd*  
xxiv. ULIC – Cyfarfod Nos Fercher 9/07/14 am 7yh ym Mhontyberem - *nodwyd*

## **8. 06/14 CYNLLUNIO**

### **CEISIADAU CYNLLUNIO – YMGYNGHORI**

Rheoliad Apeliadau Cynllunio – Apel Tystysgrif Datblygiad Cyfreithlon – Llys Helyg, Velindre

#### **Caniatâd**

- W/27077 – Miss Leah Slaymaker, Llety Clyd, Saron – adeiladu arfaethedig o anedd-dŷ sengl  
W/27940 – Mr Marc Lewis, tir cyfagos i Rhosmaen, Rhos, Llandysul SA445AF i Cartrefi Eionon - safle arfaethedig i lain preswyl ynghyd a gweithdy fframwaith coed, defnydd masnachol ac amaethyddol ar gyfer menter preswyl gwledig (ail gyflwyniad o gais W/26383)  
W/29848 – Helen Maxwell, Pant y Bara, Felindre SA44 5XT – cais cynllunio llawn i ddymchwel adeilad presennol ac adeiladu anedd-dŷ arall  
W/29891 – GL&JG&A Howells, Shadog, Pentrecwrt SA44 5DD – adnewyddu ac ymestyn lagŵn slyri presennol  
W/29930 – Mr J Wayne Maher, Plot ochr arall i Gilwen Hse, Waungilwen SA44 5YG – adeiladu 1 tŷ

#### **Cais Ymgynghori llawn**

- W/30318 – Steve Clarke, Old Post Office, Pentrecwrt. – newid defnydd o cyn Swyddfa Post gyda lle byw i –*dim gwrthwynebiad*  
W/30273 – Mr Alan Jones, Land at Llys Puw, Drefach – datblygiad arfaethedig o ddau dŷ – *pryder bod cymaint o dai yn cael ei adeiladu ar ben eu gilydd yn y safle yma*

## **9. 06/14 MATERION ARIANNOL**

### **Anfonebau**

- i. TRYWYDD – cyfieithu yng nghyfarfod 30/06/2014 .....£71.70  
ii. HIRIO YSGOL BRYN SARON – cyfarfod 19/05/14 .....£10.91  
[ caniatad i dalu'r ddau uchod feldaw'r taleb fewn ]  
iii. YSWIRIANT PARC PUW .....£1,857.36  
  
Arian yn y Banc ar 13/06/2014.....£17,985.30

### **Cais an Gefnogaeth Ariannol**

Yswiriant Parc Puw – cytunwyd i dalu'r yswiriant y tro yma ond bod angen edrych ar ffyrdd iddynt godi arian – awgrymwyd y dylid edrych ar ffyrdd y gellid codi arian a'i roi ar Agenda'r cyfarfod nesaf.

## **10. 06/14 ADRODDIAD PWYLLGOR**

**Baw Cŵn** – cyfarfod yn Ysgol Penboyr - dwedodd Cyng D Smith fod Jim Jones o GSG wedi bod yn yn yr ysgol yn siarad a'r plant ac yn ceisio pwysleisio i'r plant fod yn wylidwrus wrth fynd am dro ac yn fuan bydd y plant yn mynd allan i'r pentref â phosteri, angen gofyn i'r Cyngor Sir am bosteri fwy o faint.

**Fforwm Cyswllt Cynghorau Tref a Chymuned** – nododd Cyng J Crossley bydd Cylludeb y Sir yn cael ei dorri nôl blwyddyn nesaf o £300miliwn i £260miliwn.

## **11. 06/14 MATERION ANGEN TRAFODAETH**

- i. Arwydd Cyflymdra – nododd y Clerc cyn mynd ymlaen ag ymweliad safle gyda aelod o'r Cyngor Sir ei bod am sicrhau gall y Cyngor ddefnyddio arian wrth gefn i dalu am yr arwyddion.  
ii. Cadwyn y Cadeirydd – Clerc i wneud ymholiadau am gadwyn ysgafnach.

## **12. 06/14 SYLWADAU'R CYNGHORWYR:**

- i. Cyng J Crossley – hysbysu bod Carnifal Felindre ddydd Sadwrn Gorffennaf 19eg ym Mharc Puw  
ii. Cyng D Evans – dwedodd bod angen golchi'r Byrddau Llwybrau Gwlân – Clerc i ofyn i Mr Delwyn Jones  
iii. Cyng J Wigley – golau stryd ymlaen drwy'r amser yn Rhyd  
iv. Cyng I Davies – a) angen brwsio'r palmentydd yn Felindre – Cyng Sir K Howell i ddelio â'r mater.  
b) gofyn i'r Cyngor Sir pam nad yw'r Ceidwaid Llwybrau yn dod allan i gefn gwlad yn amlach

- v. Cyng B Jones – a) Canmol y trasio ar y brif hewl yn Felindre a Chefn Saron, nodwyd gan y Clerc nad oedd hynny'n wir am y gwaith drwy Benboyr.
  - b) angen trwsio'r fainc ym Mhwllmarl – Clerc i ofyn i Mr Delwyn Jones.
  - c) dau frigyn yn tyfu dros yr arwydd VAS yn Felindre – CS K Howell i ddelio â'r mater
- vi. Cyng M Rees – nododd bod gor dyfiant coed ar y cloddiau yr hewl tuag at yr hen Ffatri Derw ym Mhentrechwrt, yn enwedig i loriau – C S K Howell i ddelio a'r mater.
- vii. Cyng Sir K Howell – nododd bod Swyddog Gorfodaeth wedi bod allan ym Maes y coed, Cwmhiraeth gan nad oes ganddynt gais cynllunio

**CYFARFOD NESAF**

Cynhelir y Cyfarfod Misol nesaf Nos Lun, Gorffennaf 28ain 2014, am 7.30y.h yn Neuadd y Ddraig Goch, Felindre, Llandysul

Daeth y cyfarfod i ben am 8.50y.h

\_\_\_\_\_ Cadeirydd

\_\_\_\_\_ Dyddiad